

# HUW TOM

## taith uwchdir PENMAENMAWR - ROWEN

- Taith gerdded chwarelwyr hanesyddol
- Taith linellol o Benmaenmawr i Rowen
- Golygfa o'r arfordir a'r dyffryn







Bydd y canllaw hwn yn mynd â chi ar 'Daith Gerdded Huw Tom' o Benmaenmawr i Rowen. Byddwch yn dilyn y llwybr roedd yn ei cherdded bob dydd o'r gwaith yn chwarel adnabyddus Graiglwyd, Penmaenmawr i'w gartref, ym mhentref bach Rowen.
Ar hyd y llwybr mae un ar ddeg safle o ddiddordeb. Bydd y canllaw hwn yn mynd â chi i bob lleoliad gan roi ffeithiau i chi am yr ardal o gwmpas. Ar hyd y daith byddwch yn dysgu am fywyd Huw Tom, o'i ddechrau cyffredin, i ddod yn 'Brif Weinidog' answyddogol Cymru.

### SUT YDW I'N MYND YNO?

**Mewn car:** Ewch ar hyd yr A55 tan gyffordd 16 Penmaenmawr. Dilynwch y ffordd fawr tan ganol y dref. Ar y groesffordd trowch i'r chwith i fyny Fernbrook Road (sy'n cael ei ddangos ar y prif fap) a pharciwch ym maes parcio'r llyfrgell ar y dde.

**Ar gludiant cyhoeddus:** I gyrraedd dechrau'r daith gerdded mae gwasanaethau trenau rheolaidd a bysus ar hyd yr A55 i Benmaenmawr.

Llinell Ymholiadau Cludiant Cludiant Cyhoeddus: 01492 575412 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Ffôn: Traveline Cymru 0871 200 22 33
www.traveline-cymru.info

### RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY:

www.conwy.gov.uk/cefngwlad
**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Ffôn:** 01492 575290

**I gael copi print bras o'r daflen hon, ffoniwch 01492 575290**

## Gwybodaeth am y daith

Mae taith Huw Tom yn daith gerdded linellol o Benmaenmawr ar yr arfordir, drwy'r mynyddoedd i Rowen, pentref bach yn Nyffryn Conwy, gyda golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy, y Gogarth ac ar draws yr arfordir a Bae Lerpwl.
**Tirwedd:** Cerdded bryniau; mae'r llwybr yn codi'n serth o Benmaenmawr ar lefel y môr, i 300m ac amgylchedd ucheldir, a llethr serth i lawr i Rowen. Mae gatiau a chamfeydd ar hyd y daith gan gynnwys hen gamfeydd carreg dros waliau cerrig uchel. Rhaid croesi un nant **(dylid ei osgoi ar ôl glaw trwm)**.
**Pellter:** 9.6 kilometr, 6 milltir.
**Amser:** 4½ awr.
**Llwybrau:** palmant, gwair, llwybrau caregog/garw, ffyrdd gydag arwynebau caled. **Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar hyd y ffyrdd.**
**Cŵn:** Ar dir mynediad agored, rhaid cadw cŵn ar dennyn byr rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf a phan rydych yn agos at anifeiliaid fferm. Dylid cadw rheolaeth agos ar gŵn bob amser.
**Cyfeirnod Grid Dechrau:** SH717 762. Bythynnod New York, Penmaenmawr.
**Cyfeirnod Grid Gorffen:** SH760 719 Rowen.
**Map:** Explorer OL17.
**Bwyd a diod:** Ar gael ym Mhenmaenmawr a Rowen.
**Parcio:** Maes parcio'r Llyfrgell, Penmaenmawr a Rowen (edrychwch ar y map).

**Byddwch yn Barod.** Gwisgwch sgidiau cerdded cryf. Ewch â dillad cynnes, gwrth ddŵr a bocs bwyd efo chi. Rydym yn eich cynghori i fynd â Map OS a chwmpawd efo chi.

Edrychwch ar y tywydd ar:
**www.mountainweatherwales.org**
Cofiwch y gall y tywydd fod yn gyfnewidiol.

### I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM:

**Stori Pen Cyf**
www.storipen.co.uk / 01492 623970

**Penmaenmawr**
www.penmaenmawr.com

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
eryri-npa.gov.uk / 01766 770274

**Tir mynediad agored**
www.ccw.gov.uk




*Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda*
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

Stori Pen Cyf
Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales
Gwasanaeth Cefn Gwlad Countryside Service Conwy



Bythynnod New York

## Dechrau'r daith (SH 717 762) i Safle Un: Y Terasau SH 715 762

Cerddwch drwy'r pentref ar hyd Ffordd Bangor, gyda'r môr i'r dde i chi. Byddwch yn cyrraedd Bythynnod New York. Dyma fan cychwyn y daith gerdded.



Erasmus Street

Gyda Bythynnod New York y tu ôl i chi, ewch ar y troad gyntaf i'r chwith i fyny David's Lane. Ewch ymlaen i fyny wrth i'r ffordd tua'r chwith cyn stopio wrth ochr y rhesi o dai teras.
**Dyma safle un.**



Y ddau bilar

## Safle Un i Safle Dau: Llwybr y Jiwbilî, Foel Lus SH 731 759

Ewch ymlaen heibio'r tai teras. Dilynwch y llwybr dan felt cludo'r chwarel a throwch i'r dde i fyny'r allt gan adael y llwybr. Ewch i fyny'r ffordd ac i'r dde ac i fyny'r rhan serth o Graiglwyd Road. Wrth i'r ffordd wastadau, cymerwch saib i edmygu'r olygfa. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd am tua 600m i droi i'r dde i fyny ffordd gul sy'n arwain i Bysgodfeydd Graiglwyd (heibio'r troad i'r chwith i Faes Carafanau Craiglwyd). Dilynwch y llwybr i'r Pysgodfeydd, nes dod at lwybr ar y dde. Dilynwch y llwybr hwn o amgylch ymyl y gronfa ddŵr nes cyrraedd camfa.



Llwybr y Jiwbili


Ewch dros y gamfa a dilynwch derfyn y cae ar y chwith i chi a mynd drwy gât mochyn i Mountain Lane. Trowch i ddilyn y lôn serth am 540m nes cyrraedd y pileri ar ddechrau taith gerdded y Jiwbilî. **Dyma safle dau.**



Afon Gyrach

## Safle Dau i Safle Tri: Afon Gyrach SH 738 750

Gyda'r ddau biler a'r môr y tu ôl i chi ewch ymlaen ar hyd y llwybr o'ch blaen. Ewch heibio dau lwybr sy'n mynd i'r chwith, nes cyrraedd Carreg Goffa Huw Tom. Dilynwch y ddau lwybr sy'n rhedeg yn gyfochrog am 50m. Wrth i'r ddau lwybr wahanu (mae'r un ar y chwith yn mynd i fferm Ty'n y Ffridd), dilynwch y llwybr gwair sy'n mynd rhyngddynt.
Wrth y wal gerrig, ewch dros y gamfa a dilynwch y llwybr lletach i'r chwith, i lawr at Afon Gyrach a'r bont droed. **Dyma safle tri.**



Carreg Goffa Huw Tom

### Bythynnod New York, Penmaenmawr.

Adeiladwyd y bythynnod yn ystod yr 1840au fel cartrefi chwarelwyr, a dyma oedd rai o'r tai cyntaf i gael eu codi ym Mhenmaenmawr at y pwrpas hwnnw. Maent wedi cael eu hadnewyddu rŵan ac mae Rhif 4 yn amgueddfa fechan sy'n olrhain hanes y diwydiant chwarel a thwf Penmaenmawr yn yr 19eg Ganrif. I gael rhagor o wybodaeth ac amseroedd agor, ffoniwch 01492 575571.

Codwyd y tai teras yn lleoliad un yn wreiddiol ar gyfer gweithwyr chwarel Graiglwyd sydd y tu ôl i'r tai.
Ar ôl cael eu hadeiladu'n 1895, roeddent yn cynnig llety o ansawdd oedd ei angen yn fawr ar gyfnod pan roedd y chwarel yn ehangu.

Codwyd y ddau biler i nodi dechrau Llwybr y Jiwbilî o amgylch Foel Lus, a agorwyd yn 1888 i goffau Jiwbilî'r Frenhines Fictoria. Crëwyd y gylchdaith i ymwelwyr a oedd yn aros yn nhref glan môr Fictorianaidd Penmaenmawr i fwynhau golygfeydd panoramig dros y môr a'r cefn gwlad o amgylch.
Mae'r daith yn cymryd tua ¾ awr.
Mae Foel Lus wedi'i wneud o ryolit, craig folcanig sy'n creu pridd asidig. Mae'r llystyfiant yn ail dyfu ar ôl tân ar y bryn yn 1976.

Rydych yn sefyll yng nghanol Waen Gyrach. Mae'r darn eang hwn o rostir corsiog yn agos at ymyl Afon Gyrach. Credai'r Fictoriaid fod y nant wedi'i henwi ar ôl gwrach erchyll oedd yn byw wrth ei darddiad.

Roedd llethrau sydd dan orchudd rhedyn heddiw yn arfer bod wedi eu rhannu'n gaeau hir a chul yn yr oesoedd canol. Mae gweddillion terfynau'r caeau i'w gweld yn eithaf clir, ar ôl i'r rhedyn farw, wrth i'r haul isel arddangos cysgod yr hen derfynau.

Yn 1906 ac yntau'n 14 oed, dechreuodd Huw Tom ar ei yrfa ym myd gwaith yn Chwarel Graiglwyd ym Mhenmaenmawr. Byddwch yn dilyn y llwybr yr oedd o, a nifer o weithwyr chwarel eraill, yn ei dilyn ar eu ffordd adref o'r gwaith i Rowen. Roedd yn daith hir bob dydd, ym mhob tywydd.

Bu Huw Tom yn byw am gyfnod byr mewn tŷ yn Erasmus Street yn 1895. Roedd Huw Tom yn ei ddisgrifio fel 'Palas' mewn cymhariaeth gyda'i gartrefi blaenorol.

### Bywyd cynnar Huw Tom yn symud o amgylch yr ardal

Ganwyd Huw Tom Edwards ym Mhen y Ffridd, Rowen ar 19 Tachwedd 1892. Byddwch yn gweld olion y tŷ yn safle wyth ar y daith gerdded. Fo oedd yr ieuengaf o saith o blant chwarelwr. Arhosodd y teulu ddim yn Rowen am hir iawn. Erbyn 1894 roedd y teulu wedi symud i Tai Coed, Graiglwyd, Penmaenmawr ac erbyn 1895 roeddent wedi symud i dŷ arall ym Mhenmaenmawr. Yn 1898, roedd ei fam yn sâl a dywedodd y doctor bod angen iddi symud i fyny'r mynydd i fanteisio ar yr awyr iach, felly symudodd y teulu i Ffridd y Foel i'r de o Moel Lus. Collodd Huw Tom ei fam yn 1900 pan oedd ond yn wyth oed.

Priododd ei dad eto yn ddiweddarach, gyda merch plismon o'r enw Hannah. Nid oedd Huw Tom yn tynnu ymlaen gyda'i lysfam.

Aeth Huw Tom i Ysgol Pencae (Ysgol Brydeinig) ond cafodd ei yrru gan ei 'fam newydd' (roedd yn ei galw'n 'fam yng nghyfraith') i Ysgol Glanrafon (sydd wedi'i ddymchwel bellach).

Symudodd y teulu eto, y tro hwn i fan geni Huw Tom, Pen y Ffridd, yn Rowen. Y rheswm dros symud oedd dymuniad ei dad i addoli yng Nghapel Bach Rowen lle'r oedd wedi bod yn aelod blaenllaw. Aeth Huw Tom i Ysgol Rowen am tua blwyddyn olaf ei addysg ffurfiol. Dywedodd ei brifathro, Mr. Morgan 'Rydym yn colli pêl-droediwr da iawn ond bachgen drwg iawn!'

Mae Ysgol Rowen yn parhau i ffynnu fel ysgol bentref heddiw.



**Huw Tom, yn dal morthwyl yn y top ar y dde. Tynnwyd y llun yn chwarel Penmaenbach yn 1927.**

### Hanes Chwarel Graiglwyd

Ar lethrau Graiglwyd dros 5000 o flynyddoedd ynôl, roedd dynion yn creu bwyelli o greigiau caled. Defnyddiwyd y bwyelli hyn mewn sawl rhan o Brydain ar gyfer torri coed a phwrpasau seremonïol.

Mae chwarel bresennol Penmaenmawr yn canolbwyntio ar gynhyrchu agregau ar gyfer adeiladu ffyrdd ac fel balast i'r rheilffyrdd.

Mae'r cloddio wedi gostwng uchder Mynydd Penmaen Mawr o tua 400 troedfedd ac yn y broses cafodd caer Braich y Ddinas ei dymchwel, gan roi ychydig iawn o sylw i fanylion archeolegol.


### Gyrfa Huw Tom yn Graiglwyd

Ers roedd yn ddeg oed, roedd Huw Tom yn treulio gwyliau'r haf gyda'i dad yn Chwarel Graiglwyd. Ar ôl gadael yr ysgol yn bedwar ar ddeg oed (1906) dechreuodd weithio yno'n llawn amser. Roedd Huw yn hogyn cryf ond yn eithaf bach am ei oed. Roedd ei dad yn poeni fod y daith gerdded wyth milltir o hyd cyn ac ar ôl y gwaith yn ogystal â defnyddio morthwyl am o leiaf wyth awr y dydd, yn effeithio ar ei dyfiant. Gwnaed cynlluniau i Huw Tom fyw gyda'i frawd Robert a'i wraig, ond cafodd Robert ei anafu'n ddifrifol mewn damwain yn y chwarel a bu'n rhaid rhoi gorau i'r trefniadau hyn, gan ddod â gyrfa gynnar Huw Tom yn y chwarel i ben.

### Gyrfa Huw Tom ar ôl gadael Graiglwyd

Gadawodd Huw Tom chwarel Graiglwyd i fod yn weithiwr fferm ar ôl cael ei gyflogi mewn ffair yn Eglwysbach yn Nyffryn Conwy. Treuliodd ychydig wythnosau mewn fferm yn Llanbedr y Cennin, ger Rowen, cyn symud i Dalybont, Bangor.

Nid oedd gwaith ffarm yn gweddu iddo, ac yntau eto yn ddim ond pedwar ar ddeg oed, teithiodd ar y trên i Dde Cymru i chwilio am waith yn y pyllau glo ger Aberfan.




Safle Pedwar

## Safle Tri i Safle Pedwar: Waen Gyrach SH 740 749

O'r bont droed, ewch ymlaen ar hyd y llwybr, heibio'r caeau a hen anheddiad (Waen Gyrach) i'r dde. Cyn i chi orffen mynd heibio Waen Gyrach mae'r llwybr yn rhannu'n ddau.
**Dyma safle pedwar.**

Cafodd bwthyn **Waen Gyrach** a'r anheddiad o'i gwmpas a godwyd yn yr 1840au eu gadael yn wag yn 1939 pan ddaeth y rhostir o'i gwmpas yn faes ymarfer milwrol.




Huw Tom

Yn ystod ei gyfnod yn ne Cymru, gweithiodd Huw Tom yn y pyllau glo. Bu'n rhan o'r ymdrech achub yn Senghenydd lle bu farw 485 o ddynion mewn trychineb yn y pwll glo. Dechreuodd Huw focsio a daeth yn filwr gwirfoddol. Cafodd ei alw i'r fyddin yn 1914 a goroesodd Mons, Ypres a brwydrau eraill. Efallai mai yn y cyfnod hwn y daeth ar draws ei ddawn ysgrifennu. Ysgrifennodd nifer o lythyrau adref yn enwedig i'r Parch Gaianydd Williams ('Llywarch Hen') o Rowen, a addasodd lythyrau Huw ar gyfer erthygl wythnosol yn y North Wales Weekly News. Synnai llawer at ba mor gyfoes a llawn gwybodaeth oedd yr erthyglau.

Dyma oedd y tro cyntaf i ddawn Huw Tom fel ysgrifennwr ddod i'r amlwg, ac yn ddiweddarach cymerodd ddiddordeb mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o'i hunangofiant yn Gymraeg - Dros y Tresi (1956) a Troi'r Drol (1963) yn ogystal â thair cyfrol o farddoniaeth.

Anafwyd Huw Tom, a daeth yn ôl gartref ym mis Mawrth 1918. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno aeth yn ôl i fyw ym Mhenmaenmawr.




Tyddyn Grasod

## Safle Pedwar i Safle Pump: Tyddyn Grasod SH 744 745

Ewch yn syth ymlaen i fyny'r llwybr gwair a ddangosir yn y llun o leoliad pedwar uchod. Cerddwch dros y bryn, gan groesi llwybr wedi'i rychu cyn mynd i lawr tuag at Tyddyn Grasod. Wrth i chi gyrraedd waliau Tyddyn Grasod mae llwybrau yn mynd i'r chwith a'r dde, **dyma safle pump**. Ar ddiwrnod clir bydd golygfeydd ysblennydd ar draws Dyffryn Conwy, ac i lawr at y Gogarth a'r arfordir.

Mae ffermdy gwag a chorlan yn Nhyddyn Grasod, sy'n esiampl o un o'r safleoedd hanesyddol niferus sydd i'w cael ar draws Gymru. Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd ucheldiroedd Cymru'n gartref i gymunedau sylweddol o ffermwyr a oedd yn crafu byw o'u tyddynnod bach mewn amgylchedd anodd ymhell i ffwrdd o'r tirweddau distaw rydym wedi arfer â nhw heddiw. Mae'n esiampl wych o'r cyfoeth o hanes nad ydym yn gwybod llawer amdano sydd i'w weld yn eithaf digynnwrf yn yr ardal.




Tyddyn Grasod

Ychydig heibio'r ffermdy gwag, mae patrwm o gorlannau defaid ar ffurf blodyn, lle'r oedd defaid oedd wedi eu gadael i grwydro'r ucheldiroedd yn cael eu casglu ynghyd i gael eu trefnu a'u nodi gan eu perchnogion.

### Gyrfa Wleidyddol Huw Tom

Yn 1921 priododd Huw Tom Margaret o Fethesda, pentref chwarelyddol ger Bangor, a oedd dan berchnogaeth Stad y Penrhyn. Am y deuddeg mlynedd nesaf, fel ei rieni o'i flaen, bu'n byw mewn sawl cyfeiriad ym Mhenmaenmawr, Llanfairfechan a Llanddulas. Un o'i resymau dros symud oedd chwilio am waith. Gweithiodd yn Chwareli Penmaenmawr yn gyntaf ond cafodd ei ddiswyddo ar ôl gwrthdaro rhwng undebau yn 1922. Ceisiodd setlo yn ne Cymru, ond daeth yn ôl i Benmaenmawr yn fuan.

Erbyn 1923 roedd yn ysgrifennydd adran Penmaenmawr Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (TGWU). Dyma ddechrau ei yrfa yn yr undebau/gwleidyddol.



**Safle Chwech**

## Safle Pump i Safle Chwech: Maen Amor SH 743 745

Ar groesffordd y ddau lwybr uwch law Tyddyn Grasod ewch ar hyd y llwybr gwair aneglur i'r dde o gwmpas y corlannau defaid. Mae'r llwybr yn ymuno â llwybr sydd â wal gerrig sych i'r chwith iddo. Dilynwch y llwybr hwn nes ei fod yn sythu. **Dyma safle chwech.**

Yn 1927, tra roedd yn ddi-waith, cafodd Huw Tom ei ethol i gynrychioli Ward Capelulo (Dwygyfylchi) ar Gyngor Dosbarth Trefol Penmaenmawr. Gyda'i gyd-sosialydd Idwal Davies, brwydrodd yn galed am well tai a chyflenwad dŵr yn yr ardal.

Roedd y ddau ddyn yn ddrain yn ochr y sefydliad ym Mhenmaenmawr. Er ei fod wedi gwrthdaro llawer gyda'i gyd-gynghorwyr a oedd yn ddynion busnes yn bennaf, cafodd Huw ei ethol yn gadeirydd ym 1932 tra roedd yn dal i fod yn ddi-waith.

Cafodd ei allu fel swyddog undeb ei gydnabod a chafodd ei ethol yn ysgrifennydd Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (Gogledd Cymru) a bu'n rhaid iddo adael ei annwyl Benmaenmawr i weithio yn Shotton lle'r arhosodd tan 1953. O hynny ymlaen bu Huw Tom yn aelod o sawl corff cyhoeddus.



## Safle Chwech i Safle Saith: Caer Bach SH 745 729

Ewch ymlaen ar y llwybr i'r dde o gwmpas Caer Bach am tua 440m. Yma, mae'r llwybr yn rhannu'n ddau. Ewch i'r chwith ar y llwybr gyda llai o ôl cerdded arno (gyda'r wal ar y chwith) nes cyrraedd nant. Cymrwch ofal wrth groesi'r nant. Wrth edrych o'ch blaen cerddwch drwy'r 'pant' rhwng y ddau fryn bychan o'ch blaen (edrychwch ar y llun ar y chwith). Craig Celynnin yw enw'r bryn i'ch chwith.

Cerddwch i fyny'r allt gyda'r wal i'r dde, gan barhau i fynd rhwng y ddau fryn bychan gan adael y wal a dilyn y trywydd clir drwy'r eithin (i'r chwith ar waelod Craig Celynnin). Wrth i'r tir wastadau mae'r llwybr yn rhannu'n ddau unwaith eto. Ewch ar y llwybr i'r dde a mynd syth ymlaen am 1.2km. Mae'r llwybr yn un amlwg iawn ac yn mynd wrth ochr wal gerrig sych ar y chwith. Pan gyrhaeddwch fan lle mae'r wal gerrig sych yn dechrau adfeilio byddwch yn **safle saith.**



**Safle Saith**

O **safle saith** gallwch weld y gaer amddiffynnol o'r Oes Haearn, Caer Bach ar ben y bryn i'r dde. Mae tystiolaeth fod poblogaeth sylweddol yn byw yn yr ardal 2000 o flynyddoedd yn ôl.



## Safle Saith i Safle Wyth: Tŷ Huw Tom SH 740 723

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr gyda gweddillion y wal gerrig i'r chwith ohonoch, nes eich bod yn mynd drwy gât gyda hen gamfa gerrig i'r dde (edrychwch ar y llun ar y chwith).

Codwyd y wal naill ochr i'r gât rydych yn mynd drwyddi ar ddiwedd yr 1850au gan dirfeddianwyr mawr i amgáu tir comin ar y mynydd a rhwystro ffermwyr bach rhag defnyddio'r tir pori a chloddio mawn fel tanwydd am ddim. Ychwanegwyd y gât yn ddiweddarach.



Ewch ymlaen ar hyd y llwybr. Ar ôl 200m trowch i'r chwith i'r cae wrth hen bolyn gât carreg (edrychwch ar y llun uchod). Wrth i chi fynd i mewn i'r ewch tuag at weddillion hen dŷ ar y dde. Dyma **safle wyth**, Tŷ Huw Tom.



**Yr olygfa o Dŷ Huw Tom, safle wyth.**
Yn syth oddi tannoch, mae pentref Rowen a'r Afon Conwy. Yn y pellter mae Bryniau Clwyd. I'r dde mae Dolgarrog a'r Afon Conwy yn llifo i lawr o Lanrwst.



**Safle Wyth:**
Dyma adfail fferm Pen y Ffridd, cartref Huw Tom ar ddau achlysur pan oedd yn blentyn. Ar y dde mae llun o'r fferm a dynnwyd yn 1956.



## Safle Wyth i Safle Naw: Y Gromlech SH 740 717



Llun 1

Ewch drwy'r gât yn y wal uwch ben gweddillion y tŷ. Byddwch yn ymuno â llwybr gweiriog tua'r dde, ar draws ac i lawr drwy'r cae. Anelwch at gamfa gerrig dros y wal gerrig sych o'ch blaen (edrychwch ar lun 1 uchod). Mae'r gamfa yn rhan o'r wal ac yn anodd ei gweld. Mae ychydig i'r chwith i lwyn eiddew ar ben y wal. **Cymrwch ofal wrth groesi'r gamfa.**



Llun 2

Byddwch yn gweld yr olygfa sy'n cael ei dangos yn llun 2 uchod. O'r safle hwn mae'r llwybr yn llai amlwg o hyn ymlaen. Ewch i gyfeiriad y coed sydd wedi eu cylchu yn llun 2 drwy barhau i fynd i lawr yr allt, gan ddilyn yr un trywydd a chynt, drwy'r rhedyn a'r hen waliau cerrig. Wrth i chi nesáu at y coed byddwch yn croesi hen wal gerrig a ffos cyn cyrraedd y gromlech a'r llwybr.



Y Gromlech

Mae **Maen y Bardd** yn siambr gladdu neu gromlech Neolithig o dan Pen y Ffridd ac yn agos at drac hynafol a ddaeth yn ffordd Rufeinig yn ddiweddarach.



**Golygfeydd o Ddyffryn Conwy wrth fynd i lawr i Rowen.**

## Safle Naw i Safle Deg: Rowen SH 760 719

Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr i lawr, ac ymuno â'r ffordd serth sy'n arwain i Rowen. Wrth gyffordd yn y pentref, trowch i'r chwith i fynd heibio tafarn Tŷ Gwyn. Mae plac dros y ffordd ar y dde yn coffau bywyd Huw Tom. Dyma **safle deg**. I orffen y daith ewch i lawr drwy'r pentref i gyrraedd y maes parcio neu'r safle bws ychydig ymhellach ymlaen.


Mae **Pentref Rowen** ar y ffordd a arferai gael ei defnyddio gan borthmyn yn mynd â gyrrau o wartheg o Ynys Môn i farchnadoedd yn Lloegr.



Heddiw, mae gan bentref Rowen siop, tafarn ac ysgol, ond, yn y gorffennol roedd sawl tafarn a 3 melin. Roedd yno hefyd Bandy, melin a ddefnyddiwyd yn y broses o wneud brethyn gwlân.

Mae carreg goffa i Huw Tom yn sefyll yn Rowen - a gafodd ei chodi yn 1992 ac yn y dyfodol rydym yn gobeithio y bydd cofeb hefyd yng nghanol Penmaenmawr.

Ar gyrion y pentref roedd Capel Bach a oedd mor agos at galon tad Huw Tom.



Bangor
Cyffordd Junction
15a
A55
Cyffordd Junction
16
Conwy
A55
Ffordd Bangor Road
New York Cottages
Safle Bws Bus Stop
PENMAENMAWR
DWYGYFYLCHI
Ffordd Conwy Road
Ffordd Hen Conwy Old Road
Gilfach Rd
Pen-y-Coed
Fernbrook Rd
Graiglwyd Road
Graiglwyd Farm
Chwareli Graiglwyd Quarries
Graiglwyd Spring Fisheries
Mountain Lane
Graiglwyd
425m
Graig-lwyd Hall
Plas-uchaf Farm
Foel Lus
362m
Ffridd y Foel
Craig Hafodwen
381m
Stone Circle
Bryn Derwydd
Maen Crwn
Ty'n-y-ffrith
Waen Gyrach
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
Cerrig Gwynion
Cefn Llechen
Allwedd / Key
Parcio Parking
Golygfan Viewpoint
Maes Carafannau Caravan Park
Pont Bridge
Coed Trees
Tref Town
Parc Cenedlaethol National Park
Dechrau'r Daith Start of Walk
Llwybr Route
Llwybrau Eraill Other Footpaths
Trac (efallai nad yw'n hawl tramwy cyhoeddus) Track (may not be a public right of way)
Llwybr Ceffyl Bridleway
Llwybr y Gogledd North Wales Path
Llwybr y Jiwbili Jubilee Path
Gât Gate
Camfa Stile
Maen Amor
392m
Tyddyn-grasod
Cefn Maen Amor
Ty'n-y-ffridd
Tal y Fan
610m
0
0.5
1km
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl 100023380 2009.
© Crown copyright. All rights reserved 100023380 2009.
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2009.
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2009.
Craig Celynnin
407m
Cerrig y Ddinas
312m
Caer Bach
Caer Bach Hill Fort
Tŷ Huw Tom
Huw Toms House
Rhiw
Isallt
Rowen
Conwy
Safle Bws Bus Stop
Siop Shop
Tal y Bont
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10